**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

6 Medi 2018

**Ymgynghoriad ar Brexit a'n Tir - Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru**

Yn Gorffennaf 2018 cyhoeddais yr ymgynghoriad hwn. Pwrpas yr ymgynghoriad yw esbonio sut yr ydym am ddod â Chynllun y Taliad Sylfaenol a Glastir i ben a chreu cynlluniau newydd yn eu lle. Rwyf wedi treulio'r haf yn trafod â chymaint o ffermwyr â phosib.

Mae bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd yn golygu'ch bod yn cael manteisio ar farchnad anferth, didariff a hawdd allforio iddi. Hefyd, mae'r tariffau allanol y mae'r UE yn eu gosod yn rhwystro llawer o gynnyrch amaethyddol o rannau eraill y byd rhag cael eu mewnforio i wledydd yr UE (gan gynnwys y DU).

Nid ydym yn gwybod eto pa fath o gytundeb masnachu gawn ni ar ôl Brexit felly mae'n amhosib gwneud unrhyw drefniadau manwl eto. Ond bydd y cytundebau masnachu gwahanol fydd gennym yn dod â chyfleoedd a risgiau i is-sectorau gwahanol.

Er mwyn i fusnesau ffermydd allu gwrthsefyll y newidiadau, rhaid inni fuddsoddi mewn busnesau mewn ffordd wahanol trwy dargedu'r arian i wella cynhyrchiant, arallgyfeirio i ffrydiau incwm eraill ac addasu i gyfleoedd a heriau mewn marchnadoedd newydd. Mae angen i ffermio fod yn gynaliadwy o safbwynt economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol os ydym am gael y sector cryf a ffyniannus sydd ei angen arnom.

Os na wnaiff busnesau fferm Cymru addasu i'r pwysau newydd hyn, daw'n fwyfwy anodd iddyn nhw gystadlu yn y marchnadoedd rhyngwladol y bydd yn rhaid inni eu hwynebu yn sgil Brexit. Nid yw ac ni fydd y taliadau rydyn ni'n eu talu ichi ar hyn o bryd yn eich helpu i ddygymod.

Rydyn ni wedi cynnig **Cynllun Cadernid Economaidd** newydd i gefnogi busnesau ffermydd iddyn nhw barhau i allu cynhyrchu bwyd o'r ansawdd uchaf.

Gan fod marchnadoedd yn crebachu ac oherwydd cyfyngiadau'r ddaearyddiaeth neu ddiffyg cyfleoedd i arallgyfeirio, ni fydd cynhyrchu bwyd yn unig yn ddigon i gynnal rhai busnesau fferm.  Rydyn ni felly wedi cynnig **Cynllun Nwyddau Cyhoeddus** newydd i greu incwm ychwanegol ac ystyrlon i ffermwyr sy'n gallu darparu'r gwasanaethau amgylcheddol hynny rydyn ni i gyd yn dibynnu arnyn nhw ond nad yw'r farchnad yn gallu'u cynnal. Er enghraifft, does dim marchnad i dalu ffermwyr i reoli'u tir mewn ffordd all lleihau'r perygl o lifogydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dim ond ffermwyr all gwireddu'r amcanion hyn, felly mae angen meddwl am ffordd i dalu am rhai'n sy'n galluogi ffermwyr i **barhau i wneud bywoliaeth o'r tir.**

Cewch ddarllen yr ymgynghoriad yma https://beta.llyw.cymru/cymorth-i-ffermwyr-cymru-ar-ol-brexit a manylion y naw cyfarfod agored y bydd staff Llywodraeth Cymru yn eu cynnal ar y dyddiadau canlynol:

**DYDDIAD** **LLEOLIAD**

17/09/2018 Ysgol Uwchradd Llanfyllin, Llanfyllin, Powys, SY22 5BJ<br>
25/09/2018 Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Campws Llambed,<br>
Stryd Y Coleg, Ceredigion, SA48 7ED<br>
26/09/2018 Ysgol Brenin Harri'r VIII, Old Hereford Road, Y Fenni,<br>
Sir Fynwy, NP7 6EP<br>
27/09/2018 Maes Y Sioe, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3SY<br>
04/10/2018 Cae Sioe Llwyn Helyg, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 4BW<br>
08/10/2018 Stadiwm Liberty, Plasmarl, Abertawe, SA1 2FA<br>
09/10/2018 Ysgol Brynhyfryd, Ffordd y Wyddgrug, Rhuthun,<br>
Sir Ddinbych, LL15 1EG<br>
10/10/2018 Ysgol David Hughes, Ffordd Pentraeth, Porthaethwy,<br>
Ynys Môn, LL59 5SS

Thema Coetir / Coedwigaeth

11/10/2018 Maes Y Sioe, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3SY

Bydd rhai elfennau yn y cynlluniau newydd yn gyffredin â rhannau eraill y DU ond byddan nhw hefyd yn adlewyrchu natur unigryw Cymru. Am fod Cymru yn wahanol, felly dylai ein cymorth i ffermwyr a choedwigwyr fod yn wahanol.

Rwy'n amgáu rhestr o agweddau ar yr ymgynghoriad a'r cynigion sy'n cael eu camddeall. Rwy'n annog pob ffermwr, coedwigwr a phawb arall sy'n rheoli tir yng Nghymru i ddweud eu dweud am yr ymgynghoriad.

**Lesley Griffiths AC/AM**<br>
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig<br>
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs